

Polisi Oriau Hyblyg

Mawrth 2021

sirgar.llyw.cymru

Cyflwyniad	3
Gweithio y tu allan i'r "Patrwm Gweithio Arferol"	4
▪ Gweithio ar Benwythnosau	4
▪ Goramser	4
▪ Cyffredinol	4
Amser o'r gwaith ar gyfer apwyntiadau meddygol ac apwyntiadau cysylltiedig	5
Egwyliau ysmegu	5
Camddefnyddio'r Cynllun	5
Ffiniau'r Cynllun	5
▪ Egwyddorion Cyffredinol	5
▪ Cyfnod hyblyg	6
▪ Y Cyfnod Cyfrifo Oriau	6
▪ Oriau Debyd/Credyd a Throsglwyddo Gwyliau	6
▪ Gwyliau Oriau Hyblyg	6
Cofnodi Amser	6
Datganiad Cydraddoldebau	6
Gweithio dros Oriau Arferol - Polisi'r Cyngor	Atodiad A
Diffiniadau	Atodiad B

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella cydbwysedd gwaith a bywyd ei weithwyr drwy amrywiaeth o drefniadau. Mae ein Cynllun Orlau Hyblyg yn elfen allweddol a gobeithiwn y bydd gweithwyr yn ei ddefnyddio i reoli eu gwaith a'u bywydau personol yn fwy effeithiol. Mae llwyddiant y Cynllun yn dibynnu ar synnwyr cyffredin ac ewylllys da gweithwyr a rhaid iddo weithredu yn unol â gofynion y gwasanaeth. Bydd eich rheolwr yn trafod y rhain â chi gan fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth iddynt bob amser.

Mae'r Cynllun hwn yn fuddiant dewisol a gynnigir i'r holl weithwyr y mae eu trefniadau gweithio yn caniatáu elfen o hyblygrwydd, ac felly, efallai na fydd yn addas ar gyfer gweithwyr â dyletswyddau sy'n ei gwneud yn ofynnol cael patrwm gweithio oriau penodol. Nid yw'r Cynllun yn rhoi hawl contractiol i unrhyw weithiwr gael oriau hyblyg ac ni ddylid ei ddehongli felly, ond yn gyffredinol, cytunir y bydd y sefydliad a'r staff yn cael budd sylweddol o'r cynllun.

Mae polisïau eraill y Cyngor a allai ganiatáu mwy o hyblygrwydd i chi o ran eich gwaith yn cynnwys y canlynol:

- Hawl i [weithio hyblyg](#)
- Rhoi amser i ofalu am blentyn, rhiant neu aelod arall o'r teulu mewn argyfwng neu mewn sefyllfa fwy hirdymor. [Amser o'r Gwaith](#)

Gallwch ofyn i'ch rheolwr llinell neu Ymgynghorydd Adnoddau Dynol am gyngor pellach.

Mae nifer o enghreifftiau wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn sy'n dangos sut y gall y Cynllun Orlau Hyblyg helpu gweithwyr i gydbwyso eu gwaith a'u bywydau personol (mae'r astudiaethau achos a'r enwau a ddefnyddir yn ffuglennol).

Astudiaeth Achos 1

Mae John Jones, gweithiwr yn y tîm Gofal Cymdeithasol, yn cael galwad i ddweud wrtho ni all rhywun gasglu ei blant o'r ysgol heddiw. Mae John yn siarad â'i reolwr llinell sy'n cytuno y gall adael y gwaith am 2:45pm. Mae'n casglu ei blant o'r ysgol, yn mynd â nhw at eu gwarchodwr plant ac mae'n ôl yn y gwaith erbyn 3:30pm. *Nid yw John wedi gorfod cymryd hanner diwrnod o oriau hyblyg ac mae wedi gallu gwneud iawn am yr amser a gollwyd ar y diwrnod.*

GWEITHIO Y TU ALLAN I'R "PATRWM GWEITHIO ARFEROL"

Gweithio ar Benwythnosau

Er bod yr wythnos waith arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener, mae lle yn y cynllun hwn i staff weithio ar benwythnosau ar gais, er enghraifft, os ydynt am weithio ar brosiect penodol neu am gael llonydd i orffen darn penodol o waith. Mae'n rhaid cytuno ar waith o'r fath gyda'r rheolwr llinell ymlaen llaw, fel ym mhob achos arall o weithio oriau hyblyg o dan y polisi hwn, a bydd unrhyw wyliau hyblyg a gymerir yn cael ei gofnodi fel amser arferol (fesul awr) yn unig.

Goramser

Mae'n rhaid i'r rheolwr llinell awdurdodi goramser neu amser i ffwrdd yn lle oriau a weithiwyd ymlaen llaw, ac yn gyffredinol, dim ond am oriau a weithir y tu allan i'r cyfnod hyblyg y bydd y gweithiwr yn cael ei dalu. Os yw hyn yn creu trafferthion gweithredol yn yr ystyr bod yn rhaid i weithiwr gwblhau llwyth penodol o waith ac na all gydbwysu hyn drwy gymryd gwyliau hyblyg o fewn y cyfnod cyfrif oriau, gellir ystyried talu neu gael amser i ffwrdd yn lle oriau a weithiwyd yn unol â pholisi'r Cyngor. (Gweler Atodiad A).

Astudiaeth Achos 2

Gofynnir i Elin Jones, gweithiwr yn y tîm Adnoddau, weithio oriau ychwanegol i gwrdd ag amserlen benodol. O ganlyniad mae hi'n gweithio 8 awr yn ychwanegol mewn wythnos, a hynny o fewn y cyfnod hyblyg. Ni all gymryd hyn fel gwyliau hyblyg a rhoddir dewis o weithio goramser neu gael amser i ffwrdd yn lle oriau a weithiwyd (TOIL) iddi ac mae'n dewis TOIL. Mae'r amser yn cael ei gredydu i'r gweithiwr, ac ni fydd yn rhaid ei gymryd o fewn y cyfnod cyfrifo presennol. Mae'r 8 awr yn cael eu tynnu o gredyd oriau hyblyg y gweithiwr ac yn cael eu cronni i'w defnyddio fel TOIL.

Cyffredinol

Os daw patrwm i'r amlwg lle mae staff yn gweithio y tu allan i'r patrwm gweithio arferol yn rheolaidd o dan y cynllun hwn, ni ddylai staff na rheolwyr gymryd hyn fel hawl i barhau i wneud hynny. Gallai newidiadau i anghenion busnes neu gydbwysedd timau olygu bod angen newid patrymau gwaith. Yn yr un modd, nid yw'r cynllun hwn yn rhoi hawl i'r cyflogwr newid patrymau gwaith heb ymgynghori'n llawn â staff ac undebau llafur.

Astudiaeth Achos 3

Hoffai pum gweithiwr o'r tîm Adfywio a Hamdden, y mae pob un ohonynt yn cyflawni dyletswyddau tebyg, adael y gwaith am 3:00pm ar ddydd Gwener. Dywed y rheolwr llinell fod yn rhaid i o leiaf tri o'r tîm fod ar gael tan 4.30pm ar ddydd Gwener ond ei fod yn hapus i'r tîm drefnu hyn ymhlith ei gilydd. Maent yn trefnu'r rota eu hunain o fewn y fframwaith hwn a phob wythnos mae dau aelod o'r tîm yn gallu gweithio'n fwy hyblyg ar ddydd Gwener (*ar yr amod eu bod wedi gwneud iawn am yr oriau yn ystod y cyfnod cyfrifo oriau*).

AMSER O'R GWAITH AR GYFER APWYNTIADAU MEDDYGOL AC APWYNTIADAU CYSYLLTIEDIG

Bwriad y Cynllun Orlau Hyblyg yw cynyddu cwnpas staff i weithio'n hyblyg i raddau lle, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, gall gweithiwr gymryd apwyntiadau meddygol yn eu hamser eu hunain gan wneud iawn am yr oriau yn ystod y cyfnod cyfrifo oriau presennol. Gweler hefyd Polisi Absenoldeb Salwch yr Awdurdod.

Astudiaeth Achos 4

Mae gan Angharad Rees, gweithiwr yn adran yr Amgylchedd, apwyntiad yn yr ysbyty am 10.00am. Mae hi'n gwybod efallai y bydd yn rhaid iddi aros am beth amser cyn iddi weld ei hymgynghorydd felly mae'n cytuno ymlaen llaw gyda'i rheolwr llinell ei bod hi'n dod i mewn i'r gwaith am 08.00am ac yn gadael ar gyfer yr apwyntiad am 9:45am. Yn ôl y disgwyl, mae oedi wrth aros am ei hapwyntiad, ac nid yw yn ôl yn y gwaith tan 2:45pm. Er y bydd yn rhaid i Angharad wneud yn iawn am yr amser, llwyddodd i fynd i'r apwyntiad heb fod angen cymryd hanner diwrnod o wyliau oriau hyblyg.

"EGWYLIAU" YSMYGU

Mae gan y Cyngor Bolisi Di-Fwg sy'n nodi'n glir bod yn rhaid i weithwyr "glocio allan" neu gofnodi unrhyw egwyl ar gyfer ysmegu a gymerir fel amser sydd heb fod yn gysylltiedig â gwaith.

CAMDDEFNYDDIO'R CYNLLUN

Gall camddefnyddio'r cynllun hwn arwain at gamau disgyblu a/neu wahardd y gweithiwr rhag cael budd o'r oriau hyblyg.

FFINIAU'R CYNLLUN

Egwyddorion Cyffredinol

Mae'n rhaid i'r rheolwr llinell gytuno ymlaen llaw ar unrhyw geisiadau am weithio oriau hyblyg y tu allan i'r diwrnod gwaith arferol. Byddai hyn yn cynnwys (yn eithaf rhesymol) cynnal trafodaeth ynghylch rhywfaint o hyblygrwydd, hynny yw, gallai unigolyn neu dîm weithio heb orfod cael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar bob achlysur.

Ar bob diwrnod gwaith, mae'n rhaid cwblhau o leiaf 4 awr o waith, gan gynnwys o leiaf 1 awr o waith cyn 1:00pm ac 1 awr o waith ar ôl 1:00pm. Lle cytunir ar hanner diwrnod o wyliau oriau hyblyg, rhaid i bob gweithiwr gwblhau o leiaf 2 awr o waith cyn 1:00pm yn achos cymryd gwyliau yn y prynhawn ac o leiaf 2 awr o waith ar ôl 1:00pm yn achos cymryd gwyliau yn y bore. Er enghraifft, gallwch weithio rhwng 9am ac 11am a rhwng 1pm ac 3pm neu rhwng 10am a 2pm heb orfod trefnu gwyliau oriau hyblyg.

Rhaid peidio â gweithio mwy na 6 awr heb gael egwyl o hanner awr o leiaf.

Mae'r cynllun ar gael i'r holl weithwyr amser llawn a rhan-amser oni bai eu bod wedi'u heithrio'n benodol fel y manylir yn ail baragraff y **Cyflwyniad** (uchod).

Cyfnod Hyblyg

Mae'r cyfnod hyblyg ar waith rhwng 7:00am a 7:00pm.

Y Cyfnod Cyfrifo Oriau

Mae'r cyfnod cyfrifo oriau yn para am 8 wythnos ac mae'n seiliedig ar 296 o oriau gwaith ar gyfer gweithwyr â chontractau amser llawn yn ystod y cyfnod hwnnw a pro rata i weithiwr rhan-amser.

Oriau Debyd/Credyd a Throsglwyddo Oriau

Gellir trosglwyddo uchafswm o 16 awr o oriau credyd neu 8 awr o oriau debyd o un cyfnod cyfrifo oriau i'r nesaf. Bydd unrhyw oriau dros 16 awr yn cael eu colli ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo oriau oni chytunir y gellir eu cymryd fel amser i ffwrdd yn lle oriau a weithiwyd. Os gweithir mwy nag 8 awr o oriau debyd heb drefniant rhesymol ymlaen llaw, gall arwain at roi'r gweithdrefnau disgyblu ar waith.

Gwyliau Oriau Hyblyg

Gellir cymryd hyd at 1 diwrnod llawn neu 2 hanner diwrnod o wyliau oriau hyblyg yn ystod pob cyfnod cyfrifo oriau ar ôl cytuno ar hynny â'ch rheolwr llinell. Ni ellir cymryd gwyliau oriau hyblyg os yw'n arwain at oriau debyd o fwy nag 8 awr.

Astudiaeth Achos 5

Mae gan Bill Owen, gweithiwr yn Adran y Prif Weithredwr, berthynas oedrannus sydd angen gofal yn y prynhawn ac mae wedi gofyn am ddechrau a gorffen yn gynharach am gyfnod nes y gellir gwneud trefniadau gofal parhaol. Mae'r rheolwr llinell yn gwneud rhai addasiadau i sicrhau parhad o ran darparu gwasanaethau ac mae'n cytuno i'r cais gan gytuno hefyd ar amserlen a dyddiad i'w hadolygu. Gall Bill barhau i weithio wrth ofalu am ei berthynas.

COFNODI AMSER

Dylai pob lleoliad fod â systemau cofnodi amser electronig ar waith. Lle nad yw hyn yn ymarferol, bydd y rheolwr yn penderfynu ar system briodol. Disgwylir i weithwyr ddefnyddio'r system cofnodi amser a ddarperir. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau disgyblu gan gynnwys gwahardd y gweithiwr rhag defnyddio'r Cynllun Oriau Hyblyg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r Cynllun Oriau Hyblyg, cysylltwch â'ch rheolwr llinell neu Ymgynghorydd Adnoddau Dynol.

[flexi-time-recording-sheet.xls](#)

DATGANIAD CYDRADDOLDEBAU

Rhaid i bob gweithiwr fabwysiadu agwedd gadarnhaol, agored a theg a gofalu y cedwir at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod ac y caiff ei weithredu'n gyson heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oed, rhyw, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni 'sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon wrth gymhwyso'r canllawiau hyn.

Os oes gennych unrhyw bryderon cydraddoldeb ac amrywiaeth ynghylch gweithredu'r polisi a'r weithdrefn hon, dylech gysylltu ag aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol a fydd, os oes angen, yn sicrhau y caiff y polisi/gweithdrefn ei hadolygu yn ôl y galw.

GORAMSER WEDI'I GYNLLUNIO - GWEITHIO MWY NAG ORIAU ARFEROL

- 1.** Ni fydd amser a dreulir yn mynd i gynhadledd fel cynadleddwr, neu fynd ar gwrs fel cyfranogwr, yn cael eu hystyried yn ofyniad i weithio goramser.
- 2.** Mae trefniadau oriau hyblyg yn cael eu cynnal rhwng 7:00am a 7:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd taliadau/trefniadau digolledu am waith goramser yn cael eu hystyried pan fydd gwaith goramser o'r fath yn cynnwys gweithio ar benwythnosau (os na chytunir arno fel rhan o'r Cynllun Oriau Hyblyg) a gwyliau statudol neu ar ddiwrnodau gwaith arferol, a hynny cyn 7:00am ac ar ôl 7:00pm.
- 3.** Dylid rhagweld y gofyniad i weithio goramser i'r Awdurdod a'i gynllunio ymlaen llaw a dylid ond ei gyflawni ar ôl cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Prif Swyddog neu ei gynrychiolydd enwebedig, a hynny at ddibenion y cynllun hwn. Ni ystyrir ceisiadau ôl-weithredol.
- 4.** Mae gan weithwyr sy'n cael eu hawdurdodi gan eu rheolwr i weithio oriau ychwanegol y tu hwnt i'r wythnos waith 37 awr neu'r tu hwnt i'r patrwm gweithio contractiol sy'n wythnos waith 37 awr ar gyfartaledd, hawl i gael cyfradd goramser o amser a hanner yn seiliedig ar eu cyflog sylfaenol/cyfradd sylfaenol fesul awr, h.y. ychwanegiad o 50% mewn perthynas â'r holl oriau goramser y maent wedi eu gweithio neu (TOIL) ar gyfradd amser sengl os yw hynny'n well gan y gweithiwr ac os yw'r rheolwr yn cytuno i hynny. Lle bo gan weithiwr contract i weithio patrwm gwaith sy'n gyfartaledd o 37 yr wythnos, e.e. rota am bythefnos ar y tro neu ar sail oriau blyneddol, yr unig bryd y telir cyfraddau goramser yw yn achos yr oriau a weithir yn fwy na'r cyfartaledd o 37 awr yn ystod y cyfnod contractiol.
- 5.** Ni fydd goramser rheolaidd na chytundebol. Mae'n ofynnol i reolwyr ystyried pob cam posibl arall cyn caniatáu goramser, ac mae'n rhaid i oramser gael ei ganiatáu'n unol â'r prosesau cymeradwyo cytûn. Os bydd gweithiwr yn gofyn am Amser yn Lle Oriau a Weithiwyd, bydd y rheolwr yn cydsynio i hynny, ar sail yr union oriau a weithiwyd. Er enghraifft os yw gweithiwr yn gweithio 8 awr o oramser caniateir TOIL yn unol â'r gyfradd hon (h.y. ni ychwanegir 50% at gyfanswm yr oriau).

DIFFINIADAU

Oriau Hyblyg: Defnyddir yr enw hwn ar gyfer y cynllun i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch â pholisïau gweithio hyblyg eraill.	
Cyfnod Hyblyg: Dyma'r amser cynharaf y gall aelod o staff ddechrau gweithio o dan y cynllun hwn hyd at yr amser gorffen hwyr.	Y cyfnod hyblyg yw 7:00am i 7:00pm.
Y cyfnod cyfrifo oriau: Y cyfnod y mae'n rhaid cydbwysu oriau eich contract.	Mae'r cyfnod cyfrifo oriau yn 8 wythnos.
Trosglwyddo oriau: Ar ddiwedd pob cyfnod cyfrifyddu caniateir i staff drosglwyddo nifer penodol o oriau, sef naill ai oriau credyd neu oriau debyd, i'r cyfnod cyfrifo nesaf.	Gall staff drosglwyddo hyd at 16 awr o oriau credyd neu 8 awr o oriau debyd. Mae hyn yn seiliedig ar 296 awr fesul cyfnod cyfrifo ar gyfer staff amser llawn a pro-rata ar gyfer staff rhan-amser.
Diwrnod gwaith arferol: I gael sylfaen ar gyfer rheoli oriau hyblyg, dyma'r diwrnod y mae oriau swyddfa arferol yn seiliedig arno.	Ystyrir mai'r diwrnod gwaith arferol yw 8:45am i 5:00pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a 8:45am i 4:30pm ar ddydd Gwener gydag egwyl ginio o $\frac{3}{4}$ awr.
Diwrnod gwaith: Diwrnod gwaith yw unrhyw ddiwrnod heblaw am ddiwrnodau y mae aelod o staff ar wyliau awdurdodedig (gan gynnwys gwyliau oriau hyblyg diwrnod llawn neu hanner diwrnod).	
Gwyliau oriau hyblyg: Gwyliau a gymerir yw hwn gyda chaniatâd gan y rheolwr llinell ymlaen llaw ar ôl cronni oriau o dan y cynllun hwn.	Ni roddir gwyliau oriau hyblyg os bydd gweddill oriau debyd y gweithiwr yn fwy nag 8 awr.
Gwyliau oriau hyblyg diwrnod llawn neu hanner diwrnod: Mae'r rhain yn ddiwrnodau lle nad yw'n ofynnol mynd i'r gwaith am o leiaf 1 awr cyn 1.00pm yn achos gwyliau oriau hyblyg yn y bore, 1 awr ar ôl 1.00pm yn achos gwyliau oriau hyblyg yn y prynhawn neu beidio â bod yn bresennol o gwbl yn y gwaith yn achos diwrnod llawn o wyliau oriau hyblyg.	Gall gweithwyr gymryd hyd at 2 hanner diwrnod neu 1 diwrnod llawn o wyliau oriau hyblyg bob cyfnod cyfrifo oriau.
Gweithio oriau hyblyg: Gwaith a wneir gan weithiwr y tu allan i'r diwrnod gwaith arferol yw hwn.	
Gweithwyr cymwys: Mae'r rhain i gyd yn weithwyr nad oes angen patrwm gweithio penodol arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n anochel na fydd rhai gweithwyr yn gallu bod yn rhan o'r cynllun hwn oherwydd nad yw'r math o waith neu batrymau gweithio yn caniatáu hynny.	
Patrwm Gweithio Arferol:	Patrwm gweithio arferol yw'r diwrnod gwaith arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener.